**Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd dros fideo-gynadledda ddydd Mercher, 26 Mai 2021.**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Marc Davies (Cadeirydd), Clive Davies, Euros Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Ifan Davies, Meirion Davies, Elizabeth Evans, Keith Evans, Gwyn James, Dai Mason a John Roberts.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Rhodri Evans, Gareth Lloyd ac Alun Williams (Aelodau o'r Cabinet)

**Swyddogion yn bresennol:** Mr Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio; Lyndon Griffiths – Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Eiddo; Mrs Bethan Lloyd Davies, Rheolwr Perfformiad Lleihau Carbon a Rheoli Ynni ac Asedau; Mr Allan Bailey, Rheolwr Rhaglen; Mrs Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau; Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau.

(10:00a.m. – 11:35am.)

**1 Gweithdrefn**

Yn absenoldeb y Cadeirydd ar ddechrau'r cyfarfod, cytunwyd y byddai'r cyfarfod yn cael ei gadeirio gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Euros Davies.

**2 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Lyndon Lloyd MBE a Rhodri Davies am nad oedd modd iddynt fod yn bresennol yn y cyfarfod.

**3 Datgelu Buddiannau Personol/ Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

Dim.

**4 Cyflawni Sero-Net erbyn 2030 – Cynllun Gweithredu**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad a'r Cynllun Gweithredu ar Gyflawni Sero-Net. Rhoddodd y Rheolwr Perfformiad: Lleihau Carbon a Rheoli Ynni ac Asedau gyflwyniad Pwerbwynt i'r Aelodau. Adroddwyd bod Cyngor Sir Ceredigion, mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar 20 Mehefin 2019, wedi cytuno i:

- Ymrwymo i wneud Ceredigion yn Awdurdod Lleol carbon sero-net erbyn 2030
- Datblygu cynllun clir ar gyfer llwybr tuag at fod yn garbon sero-net o fewn 12 mis
- Galw ar Lywodraethau Cymru a'r DU i roi'r gefnogaeth a'r adnoddau angenrheidiol i alluogi gostyngiadau effeithiol o ran carbon

Yn ychwanegol at hyn, ar 5 Mawrth 2020, cyhoeddodd Cyngor Sir Ceredigion argyfwng hinsawdd byd-eang, gan ymrwymo i ateb yr her fwyaf sylweddol sy'n wynebu ein sir a'n planed.

Nodwyd bod y ddogfen yn nodi sut mae'r Cyngor Sir yn bwriadu ymateb i argyfwng yr hinsawdd. Mae'n egluro pam fod angen y Cynllun Gweithredu Carbon Sero-Net hwn arnom a pham fod targed 2030 mor bwysig i fynd i'r

afael â’r newid yn yr hinsawdd. Mae'r Cynllun Gweithredu yn asesu allyriadau carbon gweithredol Ceredigion ar hyn o bryd ac yn amlinellu'r heriau sy'n gysylltiedig â tharged uchelgeisiol 2030.

Dyma Ffocws y cynllun gweithredu sero-net:

Mae'r ffocws ar hyn o bryd ar y defnydd o ynni ac allyriadau (allyriadau Cwmpas 1 a 2) gan fod y rhain yn cael eu cofnodi a'u cyfrif bob blwyddyn fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Cynllun Rheoli Carbon. Mae angen cyfrifo a deall ôl troed carbon yr Awdurdod Lleol yn ei gyfanrwydd (gan gynnwys allyriadau Cwmpas 3), a gwneir hyn unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi eu methodoleg adrodd nhw, sydd wedi cael ei gohirio oherwydd COVID. Mae'n debygol y bydd ffynonellau’r allyriadau hefyd yn cynnwys:

(1) Symudedd a Thrafnidiaeth;
(2) Caffael;
(3) Defnydd Tir;
(4) Adeiladau.

Mae'r Cynllun hwn wedi'i lunio yn seiliedig ar y cynnig a arweiniwyd gan Aelodau ac a gyflwynwyd ym mis Mehefin 2019. Dylid ystyried y cynnwys ar sail a yw'n cyfleu'r weledigaeth a ddymunir wrth symud ymlaen.

Y Camau Nesaf a Ragwelir:-

**Tymor byr (3 - 12 mis nesaf)**

- Cynllun Gweithredu Sero-Net i'r Cabinet/Cyngor
- Integreiddio'r cynllun Gweithredu Sero-Net i’r Blaenoriaethau Corfforaethol, er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei fonitro a'i adrodd.
- Gwaith pellach i yrru cynlluniau a nodwyd eisoes yn eu blaenau, a fydd yn cyfrannu at gyflawni gostyngiadau mewn allyriadau.
- Parhau i drafod gyda Llywodraeth Cymru a gweithredwyr Rhwydwaith Ardal ynghylch materion capasiti grid yn y sir.

**Tymor canolig (18 mis - 2 flynedd nesaf)**

• Ar ôl rhyddhau methodoleg adrodd Llywodraeth Cymru, mae angen cynnal ymarfer sylfaenol llawn, er mwyn ehangu’r gwaith o fonitro allyriadau i gynnwys hefyd allyriadau o:

- Symudedd a Thrafnidiaeth;
- Caffael;
- Defnydd Tir;
- Adeiladau.

O ganlyniad, bydd llawer o gamau eraill yn dod i'r amlwg dros amser, y bydd angen eu nodi a'u gyrru yn eu blaenau ymhellach.

- Unwaith y bydd gan y Cyngor ôl troed carbon sylfaenol cyflawn, byddwn yn gallu edrych yn fwy penodol ar brosiectau a chynlluniau a fydd yn cyfrannu at leihau allyriadau a gwrthbwyso carbon – bydd angen buddsoddiad ariannol sylweddol ar hyn hefyd.

- Parhau â gwaith sy'n effeithiol wrth sicrhau gostyngiadau mewn allyriadau, canolbwyntio ar brosiectau y profwyd eu bod yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol.
- Dadansoddi ac asesu lle mae angen gwybodaeth, adnoddau a newidiadau polisi i gefnogi'r symudiad tuag at garbon sero-net.
- Adolygiad a diweddariad blynyddol cychwynnol o'r Cynllun Gweithredu Sero Net – i'r Pwyllgorau Craffu a'r Cabinet haf 2022.

**Hirdymor (2+ blynedd nesaf)**

- Cynllun Gweithredu Sero-Net i'w adolygu a'i ddiweddaru o bryd i'w gilydd, er mwyn sicrhau cynnydd.
- Cyflawni prosiectau ymhellach sy'n rhoi gostyngiadau carbon sylweddol. Bydd y rhain yn debygol o fod yn fwy cymhleth, yn fwy o ran maint a gwerth; gall hyn gynnwys dal a storio carbon, plannu coed.
- Dylai arferion gweithio di-garbon gael eu hymgorffori bellach yn holl arferion gweithio'r Awdurdod Lleol.
- Dylai'r holl gynlluniau, prosiectau a datblygiadau newydd yng Ngheredigion gael eu cyflawni mewn modd sy'n cyfrannu at ein huchelgeisiau sero-net.

Dywedodd sawl aelod eu bod yn cytuno mewn egwyddor â'r angen i fynd i'r afael â'r mater hwn, fodd bynnag, codwyd pryderon am y costau sydd ynghlwm â'r cynllun hwn, er mwyn cyflawni'r targedau a nodwyd; nodwyd hefyd fod angen cynllun busnes. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddogion fod y cynllun wedi deillio o gynnig gan y Cyngor Sir. Adroddwyd bod y cynllun ei hun yn gyraeddadwy gan fod gwaith wedi'i wneud eisoes ar brosiectau yn y gorffennol a'r dyfodol er mwyn cyflawni sero carbon. Adroddwyd y bydd cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo ac felly byddai angen cynllun ar waith, fel yr un a nodwyd.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD ar y canlynol:

(i) sefydlu gweithgor trawsbleidiol fel rhan o'r grŵp carbon presennol, er mwyn hybu'r cynllun yn ei flaen;
(ii) bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad diweddaru bob chwe mis;
(iii) argymell bod y Cabinet yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ddweud mor bwysig yw hi bod methodoleg adrodd yn cael ei darparu yn fuan.

**5 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2021 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny.**

CYTUNWYD bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2021 yn gywir.
Cofnod 4 - Clefyd coed ynn – Gofynnir i'r Swyddogion am y diweddaraf ynglŷn â chostau'r cynllun hwn.

**6 Blaenraglen Waith 2021/22**

CYTUNWYD i nodi cynnwys Blaenraglen Waith 2021/22 fel y'i cyflwynwyd ynghyd â'r ychwanegiadau canlynol ar gyfer y cyfarfodydd sydd i ddod:
Clefyd coed ynn - diweddariad
Cyflawni Sero-Net erbyn 2030 - bob chwe mis
Casglu sbwriel

**Cadarnhawyd yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar xxxxx.**